

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 10fed Mai, 2021 drwy gyfrwng Zoom

Presennol: Dwynwen (DP) (**Cadeirydd**) Iolo Roberts (IPR), Eryl (EO), Gwyn (GW), Dilys (DAP), Steve (SW), Iona (IE), Iolo ap Gwynn (IAG), Raymond (RG), Eirwen (EW), Dewi (DH), Gareth (GER), Richard (RR)

1.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod fel rhai cywir:</p> <ul style="list-style-type: none">i. 11eg Ionawr, 2021ii. 5ed Mawrth, 2021 <p>Yn codi</p> <p><u>Eitem 1 - Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth Gynaliadwy yr Wyddfa ac Ogwen.</u></p> <p>Adroddodd IPR bod ansicrwydd yn y cyfarfod ar y 5ed o Fawrth pa'r un ai ar ddechrau ynteu ar ddiwedd mis Mawrth yr oedd cyfnod ymgynghorol y cynllun yn dod i ben. Ar ôl y cyfarfod daeth yn amlwg bod y cyfnod wedi dod i ben yn fuan ym mis Mawrth ac felly doedd dim diben dwyn sylw aelodau'r Clwb at fodolaeth y cyfnod ymgynghorol fel yr argymhellwyd.</p>	
2.	<p><u>MATERION ARIANNOL</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol</p> <p>Adroddodd</p> <ul style="list-style-type: none">• bod gan y Clwb 202 o aelodau bellach a swm o oddeutu £7k yn ei goffrau• ynglŷn â'r teithiau preswyl a drefnwyd ac y bu'n rhaid eu canslo oherwydd y pandemig, ad-dalwyd yr arian gan yr YHA a'r SYHA a digolledwyd pawb.• bod y Bartneriaeth Awyr Agored wedi ymestyn eu cyfnod aelodaeth ac felly ni fu raid talu'r tanysgrifiad blynyddol iddynt eto. <p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none">i. derbyn y wybodaethii. diolch i DAP a GW a GER am yr holl waith yn trefnu i ganslo ac ad-dalu y cyfeirir ato uchod.	
3.	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd EO</p>	

- Yn sgil y llacio ar y cyfyngiadau roedd y Clwb wedi ail-ddechrau rhaglen weithgareddau ar yr 8fed o Fai ond yn anffodus bu'n rhaid canslo'r tair taith a drefnwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw oherwydd tywydd garw.
- Mae rhaglen lawn o weithgareddau tan mis Gorffennaf a bydd angen penderfynu beth i'w wneud ynglŷn â'r teithiau y bu'n rhaid eu canslo ar y 8fed o Fai. Mae taith RG eisoes wedi ei hailraglennu ar gyfer dydd Mercher yng Ngorffennaf
- bod angen penderfynu a fyddai'r Clwb yn adolygu'r niferoedd a ganiateir ar deithiau os bydd y cyfyngiadau yn parhau i gael eu codi fel y rhagwelir
- Roedd wedi derbyn cais gan un o'r aelodau ar i'r Pwyllgor ystyried trefnu wythnos yn yr Alban ym mis Hydref yn aros mewn gwesty.
- bod Gareth Pierce wedi cysylltu yn gofyn a fyddai'r Clwb yn barod i ystyried (os byddai diddordeb) trefnu penwythnos breswyl yng Nglan-llyn a fyddai'n gyfle i aelodau De Cymru y Clwb ddod i fyny i gyd-gerdded hefo criw'r Gogledd
- Yn y drafodaeth roedd consensws y gellid dechrau cynyddu'r niferoedd a ganiateir ar deithiau'r fel mae'r sefyllfa yn gwella ond bod angen bod yn bwyllog. Petai'r cyfyngiadau ar bellter cymdeithasol yn parhau ac yn golygu na ellid cyd-deithio roedd y sefyllfa parcio ym man cychwyn taith hefyd yn rhywbeth i'w ystyried.

Cytunwyd

- i. Diolch i EO am ei holl waith a nodi y gellid, wedi trafod hefo'r arweinyddion, ailgynnal y teithiau hynny y bu'n rhaid eu canslo ar y 8fed o Fai yn ystod misoedd Awst neu Fedi
- ii. ynglŷn â niferoedd ar deithiau, dylid cadw at 12 tan ddiwedd Mai ac yna o'r 1af o Fehefin, cyn belled na fydd y sefyllfa'n gwaethygu, cynyddu'r nifer i 15. Gellid cynyddu eto i 18 yn ddiweddarach yn ystod yr haf os yw'r rheolau yn cael eu llacio
- iii. oherwydd yr holl waith a gafwyd yn canslo teithiau preswyl yr Alban a Lloegr roedd yn gyn-amserol i ystyried trefnu taith arall i'r Alban ar hyn o bryd.
- iv. nodi bod diddordeb mewn trefnu penwythnos lle byddai modd croesawu criw'r De i fyny i'r Gogledd a nodi bod posibilrwydd y gellid cyfuno penwythnos o'r fath gyda Chyfarfod Blynyddol y Clwb.
- v. yn sgil iv. uchod, gofyn i DH holi os byddai diddordeb ymysg aelodau'r De.

4. CYFARFOD BLYNYDDOL 2021

Cytunwyd, oherwydd na wyddys beth fydd rheoliadau'r pandemig erbyn hynny, ei bod yn gynamserol i ystyried gwneud unrhyw drefniadau am y tro ac y dylid ystyried y mater yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi. Gobeithir hefyd y bydd mwy o oleuni ynglŷn â'r posibilrwydd o gyfuno'r Cyfarfod Blynyddol gyda phenwythnos pryd bydd rhai o griw'r De yn aros yng Nglan-llyn os y bydd y cynlluniau a nodir yn eitem 3 uchod yn cael eu gwireddu.

5. MATERION CMP

	<p>Adroddodd SW bod y CMP yn ei gyfarfodydd lleol diweddar, ymysg pethau eraill, wedi trafod Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth Gynaliadwy yr Wyddfa ac Ogwen gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a hefyd waith yr oedd yr awdurdod wedi bod yn ei wneud ar lwybrau Llanberis i gopa'r Wyddfa ac i Fwlch Maesgwm a'r diffyg gwybodaeth am strategaeth/rhesymeg yr awdurdod yn gwneud y math yma o waith.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a diolch i SW am ei adroddiad.</p>	
<p>6.</p>	<p><u>Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p>	
	<p>Adroddwyd gan RG na chafodd y Bartneriaeth hyd yma gyfle i aildrefnu'r Cwrs Cymorth Cyntaf ar gyfer aelodau'r Clwb oherwydd yr amgylchiadau a chan fod cyrsiau o'r fath bellach yn cael eu rhedeg gan wahanol sefydliadau, byddai'n holi'r Bartneriaeth ynglŷn â beth yn union oedd eu bwriad.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth.</p>	
<p>7.</p>	<p><u>Y COLEG CYMRAEG</u></p>	
	<p>Adroddodd DP fod Gareth Pierce wedi cysylltu ynglŷn â pherthynas y Clwb gyda chenhedlaeth aelodau'r dyfodol. Roedd yn ymwybodol bod y Coleg Cymraeg yn ymestyn ei genhadaeth i'r sector addysg bellach a phrentisiaethau, ac yn holi a oedd lle i ddatblygu perthynas rhwng y Clwb a'r Coleg? Mae ganddo gysylltiadau gyda'r Coleg ac yn barod i grybwyll unrhyw bosibiliadau o gydweithio rhyngddynt a'r Clwb os oes dymuniad i wneud hynny.</p> <p>Cytunwyd ei bod yn werth ystyried hyn a gofynnwyd i IAG gael gair hefo Gareth i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â sut yn union yr oedd yn gweld y gellid datblygu ei syniadau.</p>	
<p>8.</p>	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 7.30pm, nos Lun 6ed o Fedi 2021 drwy gyfrwng Zoom.</p>	